| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Pwyllgor Craffu - Gofal** |
| **Dyddiad** | **20 Ebrill 2018** |
| **Aelod Cabinet** | **Cynghorydd Dilwyn Morgan** |
| **Teitl** | **Strategaeth Cefnogi Teuluoedd yng Ngwynedd** |

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Mae Awdurdodau lleol yn mynd drwy gyfnod sylweddol o newid. Mae newid deddfwriaethol drwy'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn gosod gwaelodlin a fframwaith glir ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn golygu fod angen trawsnewid rhai meysydd traddodiadol o ddarparu gwasanaethau gan fod pwyslais ar hybu annibyniaeth pobl a chanolbwyntio o'r newydd ar sicrhau fod gwasanaethau arbedol ac ymyrraeth gynnar ar gael, a'u bod yn llawer mwy hygyrch nag yn y gorffennol. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r gwasanaethau hyn i gyd ar yr un platfform statudol, ac o'r herwydd mae angen i wasanaethau Cyngor Gwynedd ymateb i'r her yma gan dddefnyddio yr adnoddau sydd ar gael.

**1.2** Yn hanesyddol yng Ngwynedd, mae ymagwedd gref o ddarparu gwasanaethau arbedol i deuluoedd ar sail aml asiantaethol wedi ei ddatblygu. Mae sawl pecyn gwaith drwy Strategaeth Gomisiynu Teuluoedd yn Gyntaf Gwynedd 2012 – 2017 wedi bod mewn lle, sydd wedi sicrhau fod ystod eang o wasanaethau ar gael i gefnogi teuluoedd gyda'r angen wedi ei dargedu. Roedd hon yn strategaeth bartneriaeth ac yn adeiladu ar berthynas waith aml asiantaethol dda. Cafodd ei siapio gan Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd ac roedd rhagweledriad i ddablygu'r agenda yn y tymor hirach i fod yn fodel integredig o ddarparu gwasanaethau. Y weledigaeth oedd y byddai teuluoedd yng Ngwynedd yn 'gryf, gwydn a fyniannus'.

**1.3** Mae'r rhaglen hon wedi sicrhau fod Gwynedd wedi medru defnyddio'r dystiolaeth o'r gwaith sydd wedi ei wneud dros y cyfnod i adnabod yr angen ar gyfer symud yr agenda yn ei blaen ar gyfer y cyfnod nesaf. Erbyn hyn, mae angen edrych yn ehanngach ar ein Strategaeth Cefnogi Teuluoedd yn hytrach na chanolbwyntio ar Strategaeth Gomisiynu yn unig.

**1.4** Comisiynwyd adolygiad cynhwysfawr o'r Strategaeth yn ystod Haf 2017 gan sicrhau fod gwerthusiad o'r effaith ariannol ac anariannol yn cael eu hamlygu. Y prif neges yw fod y rhaglen wedi bod yn llwyddiannus, ac mae yn amlwg fod angen i'r strategaeth gomisiynu newydd chwarae ei ran mewn strategaeth ehangach lle gellir gosod allan yn glir beth yw nod y Cyngor wrth symud ymlaen.

## 2. Cefndir ac ystyriaethau perthnasol

**2.1** Yn 2013/14, bu i'r Cyngor benderfynu newid strwythur adrannau a chreu un adran newydd sef Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Un rheswm am y newid hwn oedd i ddod a'r gwasanaethau oedd yn ymwneud a'r gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth

cynnar i blant a'u teuluoiedd i'r un adran a'r gwasanaethau oedd yn ymwneud a'r elfen statudol, sef plant mewn angen, diogelu plant, plant mewn gofal a phobl ifanc yn gadael gofal. Drwy wneud hyn, roedd disgwyliad y byddai'r gwasanaethau hyn yn gallu gweithio yn agosach i'w gilydd, osgoi dyblygu ac yn gweld cyfleoedd i weithio yn wahanol i wella canlyniadau i blant a theuluoedd

**2.2** Mae'n deg i nodi nad ydym wedi gwireddu'r bwriad yma yn llawn eto, ond mae yn bwysig cydnabod y gwaith da sydd wedi digwydd dros y cyfnod diwethaf drwy esiamplau o dimau integredig (Gyda'n Gilydd/Trothwy Gofal). Mae angen adeiladu ar yr egwyddorion y cyfeirir atynt ac arddel y ffordd yma o weithio fwyfwy i'r dyfodol. Mae'n deg nodi hefyd, er y gwaith da sydd yn cael ei weld ar draws yr adran hon ac adrannau eraill sydd yn ymwneud a phlant a theuluoedd, nad yw'r gwaith mor integredig ac y gallai fod. Gwelir fod dyblygu gwaith yn digwydd yn ogystal a bylchau yn ein hymdrechion fel Cyngor a phartneriaid.

**2.3** Drwy gymryd stoc o'r sefyllfa, a hynny mewn cyd destun deddfwriaethol newydd, mae'r adran o'r farn fod angen newid sylweddol o ran ffocws yr adran a sut mae'r adran yn cydweithio gydag adrannau eraill a gyda phartneriaid allanol.

**2.4** Un ffactor sydd wedi cyfrannu at y sefyllfa heddiw yw fod nifer o'r ffrydiau gwaith yn y maes yma yn cael eu hariannu drwy grantiau o'r Llywodraeth, ac oherwydd hynny mae cyfyngiadau sylweddol ar sut yr oedd yr arian yn cael ei wario. Mae esiamplau o brosiectau a gwasanaethau nad ydynt wedi bod ar gael i bob plentyn, person ifanc a theulu yn ddibynol ar eu 'statws' o fewn y gyfundrefn, a sgil effaith hynny yw nad yw'r feddylfryd sydd yn sail i'r gwasanaethau ac ymyrraethau heb wirioneddol gael eu prif ffrydio i waith dydd i ddydd pob gweithiwr a phob tim. Mae rhaid gwreiddio a prif ffrydio er mwyn sicrhau cynaladwyedd y model a'r weledigaeth i'r dyfodol.

**2.5** Ein bwriad felly, yw i ddatblygu Strategaeth Cefnogi Teuluoedd ar lefel gorfforaethol a thu hwnt er mwyn sicrhau bod ein holl ymdrechion yn llawer mwy integredig – ac nid drwy newid strwythurau y mae gwneud hyn bob tro, ond drwy weithio o gwmpas y teulu a phlant ar lefel lleol, mewn ffordd llawer mwy cydlynus. Mae'n weledigaeth heriol oherwydd ei bod yn cynnwys nifer o adrannau a phartneriaid, ond mae'r wobr o'i gwneud, yn werth ei chael.

## 3. Yr egwyddorion sylfaenol (sail y Strategaeth)

- Sicrhau fod y plentyn a'r teulu yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud
- Darparu gwasanaethau i deuluoedd yng Ngwynedd gyda ffocws clir ar y teulu, fydd yn ymatebol i anghenion unigryw y teulu ac yn canolbwyntio ar gryfderau er mwyn helpu teuluoedd i ddarganfod eu datrusiadau tymor hir eu hunain.
- Cynnwys teuluoedd ar draws y sbectrwm angen wrth ffurfio cynllun o'u cwmpas gan roi cyfle iddynt roi eu barn am y math o wasanaethau a fyddai o fudd iddynt
- Annog tueluoedd i adeiladu ar eu gallu eu hunain i ddatblygu eu hannibyniaeth yn hytrach na chreu dibyniaeth
- Cynllunio gwasanaethau mewn modd fydd yn adnabod cyfleoedd i gydweithio ar draws y Cyngor ac yn aml asiantaethol gan alinio'r gweithgareddau a phrosiectau

sydd yn bodoli neu a ddatblygir i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac yn osgoi dyblygu

- Defnyddio meddylfryd Ffordd Gwynedd o ran trefnu ein gwaith, gan osgoi trrefniadau cyfeirio cymhleth rhwng gwahanol gyrff proffesiynol. Os bydd rhaid cael trefniadau cyfeirio oherwydd rhesymau anorfod, yna byddent yn glir er mwyn sicrhau fod teuluoedd yn cael mynediad i'r gefnogaeth gywir ar yr amser cywir.
- Datblygu timau integredig gan gychwyn drwy uno timau statudol gwaith cymdeithasol a swyddogion tim o amgylch y teulu, gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd a'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth (IAA) o fis Ebrill 2018. Yn y tymor hir wrth ddatblygu timau integredig, byddwn yn cyd leoli timau lle bo hynny yn bosibl.
- Sicrhau fod gan pob teulu un person cyswllt ar gyfer eu trefniadau cefnogi
- Datblygu pwrpasau clir ar gyfer ein gwasanaethau a'r timau integredig, a datblygu cyfres o fesuryddion lleol er mwyn mesur perfformiad yn erbyn y pwrpasau hyn.
- Datblygu rhaglen hyfforddaint eang ar gyfer gweithredu a chyflawni gan sicrhau fod y gweithlu cefnogi teuluoedd ar draws yr asiantaethau a phartneriaid yn ymarfer yn yr un modd gyda teuluoedd gan sicrhau fod y sgiliau gan staff i adnabod pan fo teulu angen ymyrraeth a sut i gael mynediad i wasanaethau priodol.

## 4. Casgliad

**4.1** Cyflwynir yr adroddiad er gwybodaeth i'r Pwyllgor Craffu Gofal a bydd modd cyflwyno'r Strategaeth Cefnogi Teuluoedd i'r aelodau pan fydd wedi ei datblygu.

**4.2** Bydd angen sicrhau fod adnodd digonol mewn lle o fewn yr Adran Plant a Chefnogi Teuloedd i arwain a gyrru'r strategaeth a'r rhaglen bwysig yma yn ei blaen.